



Sefydlwyd Grŵp Gweithredu Clefyd yr Afu er mwyn cefnogi cynnydd wrth fodloni blaenoriaethau Law yn Llaw at Iechyd – [Cynllun Cyflawni ar gyfer Clefyd yr Afu](#). Mae ein haelodau'n cynnwys clinigwyr o bob bwrdd iechyd ac ymddiriedolaeth yng Nghymru, cynrychiolwyr Ymddiriedolaeth Afu Prydain, Ymddiriedolaeth Hepatitis C a'r Sefydliad Clefyd Afu Plant ac, yn hollbwysig, cynrychiolwyr cleifion.

DATGANIAD ANSAWDD

Bydd datganiad ansawdd clefyd yr afu, sy'n cael ei gydgyhyrchu gydag amrywiaeth o bartneriaid statudol a gwirfoddol ar hyn o bryd, yn llywio datblygiad gwasanaethau clinigol, wedi'u hategu gan fanylebau gwasanaeth manylach a/neu lwybrau cenedlaethol. Gyda'r bwriad o'i gyhoeddi yn yr hydref, bydd y Datganiad yn cymryd lle'r cynllun cyflawni ar gyfer clefyd yr afu, a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2022. Bydd y datganiad ansawdd yn cael ei gefnogi gan Grŵp Gweithredu Clefyd yr Afu (LDIG).

- Atodiad 1-3. Delwedd Datganiad Ansawdd, y Broses Lywodraethu a Rhestr Wirio
- Amserlen y Datganiad Ansawdd

https://www.canva.com/design/DAFK-YYqowU/arnDoysYGBqw-EK-CwflRw/view?utm_content=DAFK

[YYqowU&utm_campaign=designshare&utm_medium=link&utm_source=publishsharelink](https://www.canva.com/design/DAFK-YYqowU/arnDoysYGBqw-EK-CwflRw/view?utm_content=DAFKYYqowU&utm_campaign=designshare&utm_medium=link&utm_source=publishsharelink)

AIL ROWND O GEISIADAU AM GYLLID

ACafodd galwad am ail geisiadau am gyllid ei anfon drwy e-bost at holl aelodau LDIG. Dylid dychwelyd pob cais at Andrea Pace erbyn diwedd y dydd 31 Awst 2022. **Amserlen ymgeisio:**

22 Awst: Agor ceisiadau.

31 Awst: Dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau

Wythnos yn dechrau 5 Medi: PDT i adolygu a gwneud argymhellion

Wythnos yn dechrau 5 Medi: Anfon argymhellion at aelodau LDIG yn gofyn am ganiatâd/ gwrthwynebiadau trwy e-bost

Wythnos yn dechrau 5 Medi: PDT yn cadarnhau penderfyniadau. Rhoi gwybod i ymgeiswyr am benderfyniadau a'r camau nesaf fel y bo'n briodol

13 Medi: Cyfarfod LDIG. Cofnodi ceisiadau yn ffurfiol

LLONGYFARCHIADAU

- Mae'r achos busnes a gyflwynodd Tom Parker (WHSCC) i'r Tîm Amlddisgyblaethol Hepatocellular Carcinoma (HCC) wedi'i gymeradwyo.
- Llongyfarchiadau i Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg ar eich cais llwyddiannus am gyllid Canolfan Gwerth mewn Iechyd Cymru (VBHC). Bydd Gwasanaeth Tîm Gofal Alcohol 7 diwrnod yn cael ei ddatblygu.

DIWEDDARIAD Y SENEDD

Diweddariad Gweithrediaeth GIG Cymru

https://www.canva.com/design/DAFEJ-q6Xg8/A126YWWEDe-lsJCeV8zVww/view?utm_content=DAFEJ-q6Xg8&utm_campaign=designshare&utm_medium=link&utm_source=publishsharelink

CYDWEITHREDIAD IECHYD GIG CYMRU

Sefydliad cenedlaethol, sy'n gweithio ar ran y byrddau iechyd, yr ymddiriedolaethau a'r awdurdodau iechyd arbennig sy'n rhan o GIG Cymru yw Cydweithrediad Iechyd GIG Cymru. Trwy hwyluso gwaith ymgysylltu, rhwydweithio a chydweithio rhwng ein partneriaid GIG a rhanddeiliaid eraill, mae ein timau yn helpu gyda'r gwaith o wella gwasanaethau GIG Cymru ar draws ffiniau sefydliadol, a gwella ansawdd gofal i gleifion. **Mae rhagor o wybodaeth am y Cydweithrediad, diweddariad ar y Fframwaith Clinigol Cenedlaethol (NCF) a dolenni cyswllt i gynllun blynyddol y Cydweithrediad ar gael isod :**

Cydweithrediad Iechyd GIG Cymru – Gwybodaeth Ymsefydlu Ffrwd Waith Iechyd Cyhoeddus (constantcontactpages.com)
Cynllun Blynyddol Cydweithrediad Iechyd GIG Cymru 2022-23

*Am rannu
gwybodaeth?*

Os hoffech gyfrannu at y cylchlythyr nesaf, e-bostiwch eich diweddariadau erbyn 1 Tachwedd 2022. Emri, andrea.pace3@wales.nhs.uk



Meng Khaw, Cadeirydd

Mae Meng yn Gyfarwyddwr Cenedlaethol y Gwasanaethau Diogelu a Sgrinio Iechyd ac yn Gyfarwyddwr Meddygol Gweithredol, Iechyd Cyhoeddus Cymru

TIM CYFLAWNI'R PROSIECT



Jo Whitehead, Prif Swyddog
Gweithredol

Jo yw Prif Swyddog Gweithredol Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr



Miles Allison
Dirprwy Gadeirydd,
Meddyg ymgynghorol
Bwrdd Iechyd Prifysgol
Aneurin Bevan



Andrew Yeoman,
Arweinydd Clinigol,
Ymgynghorydd Meddygol,
Bwrdd Iechyd Prifysgol
Aneurin Bevan



Breandan Healey,
Ymgynghorydd mewn
Microbioleg a Chlefydau
Heintiau



Jane Salmon,
Ymgynghorydd
Diogelu Iechyd, Iechyd
Cyhoeddus Cymru



Gareth Hewitt, Gwas
Cyhoeddus/Sifil,
Llywodraeth Cymru



Jo Oliver, Rheolwr
Rhwydwaith a Grwpiau
Gweithredu



Andrea Pace. Cydlynnydd
Grŵp Gweithredu



Kristina Kunsteinaite,
Grŵp Gweithredu, Uwch
Swyddog Cymorth
Prosiect